**Jeremy Miles AS/MS**
**Gweinidog y Gymraeg ac Addysg**
**Minister for Education and Welsh Language**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Eich cyf/Your ref P-06-1336
Ein cyf/Our ref JMEWL/00751/23

Jack Sargeant MS
Cadeirydd – Pwyllgor Deisebau
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

9 Mai 2023

Annwyl Jack,

Diolch am eich llythyr a dderbyniwyd ar 23 Ebrill 2023 ynglŷn â deiseb P-06-1336 – Gwersi Cymraeg am ddim i bawb sydd isio dysgu'r iaith yng Nghymru.

Mae sicrhau bod system effeithiol a fforddiadwy ar waith i oedolion a phobl ifanc ddysgu Cymraeg yn hanfodol bwysig os ydyn ni am gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg a'r niferoedd sy'n defnyddio'r iaith yn eu bywydau bob dydd.

Mae’r Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, a sefydlwyd yn 2016, yn gyfrifol am holl agweddau’r sector Dysgu Cymraeg. Mae’n cynnig arweiniad strategol i’r maes, gan gynnwys datblygu cwricwlwm a chyrsiau, darparu adnoddau a hyfforddiant i ymarferwyr, marchnata, e-ddysgu yn ogystal â chydweithio â phartneriaid i ehangu cyfleoedd i ddysgwyr ddatblygu a defnyddio eu sgiliau Cymraeg.

Mae’r Ganolfan yn gweithio gyda 11 darparwr i gynnig cyrsiau Dysgu Cymraeg ar draws Cymru. Mae modd chwilio am gyrsiau drwy wefan y Ganolfan - https://dysgucymraeg.cymru/dysgu/dod-o-hyd-i-gwrs/.

Mae’r Ganolfan yn cynnig cefnogaeth ymarferol i ddysgwyr ar ffurf deunyddiau print a digidol rhad ac am ddim i fynd law yn llaw â’r cyrsiau. Mae’r Ganolfan hefyd wedi datblygu cyrsiau ar-lein er mwyn cynnig ystod ehangach o gyfleoedd i ddysgwyr allu datblygu eu sgiliau Cymraeg. Ceir manylion pellach am waith y Ganolfan ar www.dysgucymraeg.cymru.

Yn ogystal â gweithio gyda darparwyr, mae gan y Ganolfan partneriaethau ffurfiol gyda Say Something in Welsh a Duolingo. Mae hyn yn cynnig mwy o ddewis a hyblygrwydd i ddysgwyr ac yn sicrhau bod adnoddau gwahanol ddarparwyr yn cyd-fynd, gan ei gwneud hi’n haws i symud o un darparwr i'r llall i weddu i lefel y dysgwr a sut y maent am ddysgu.

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Jeremy.Miles@llyw.cymru
Correspondence.Jeremy.Miles@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Mae cynllun Cymraeg Gwaith y Ganolfan hefyd yn mynd o nerth i nerth. Mae Cymraeg Gwaith yn cynnig hyfforddiant amrywiol hyblyg, gyda'r nod o gryfhau sgiliau Cymraeg mewn gweithleoedd ledled Cymru. Roedd 319 o gyflogwyr yn rhan o'r Cynllun yn 2021-22, gyda dros 6,000 o weithwyr unigol yn dilyn cwrs. Cafodd y cynllun ei ehangu'n ddiweddar i gynnig cyrsiau wedi'u teilwra ar gyfer y gweithlu addysg a'r sectorau Iechyd a Gofal Cymdeithasol a Gofal Plant.

Nid yw cynnig cyrsiau Cymraeg rhad ac am ddim i oedolion yn un o'r newidiadau a nodir yn Cymraeg 2050. Mae ein buddsoddiad parhaus yn y sector Dysgu Cymraeg yn golygu bod ffioedd ar gyfer cyrsiau yn rhesymol iawn, gyda llawer o ddysgwyr yn derbyn hyfforddiant am ddim neu yn talu ffi ostyngol.

O dan y Cytundeb Cydweithio rydym wedi ymrwymo i gynnig darpariaeth dysgu Cymraeg am ddim i bobl ifanc 16 i 25 oed a gweithwyr yn y sector addysg. Mae dysgwyr ar gynllun Cymraeg Gwaith hefyd yn elwa o hyfforddiant am ddim, ynghyd a dysgwyr Clwb Cwtsh, sy'n cynnig cyrsiau i rieni/gofalwyr plant ifanc ac aelodau teulu estynedig.

Ar gyfer dysgwyr sydd ar gyrsiau Dysgu Cymraeg prif ffrwd, mae polisi ffioedd hael ar waith ar draws yr holl ddarparwyr ac ers 2019 un ffi o £90 sy'n cael ei godi fesul cwrs, waeth beth fo lleoliad, lefel neu batrwm y cwrs. Ochr yn ochr â hyn mae polisi gostyngiadau sy'n cynnig gostyngiad ffioedd ar gyfer dysgwyr mewn grwpiau blaenoriaeth neu ar gyrsiau sy'n flaenoriaeth. Mae hwn yn cynnwys gostyngiad o 40% i unigolion ar fudd-daliadau, a gostyngiad o hyd at 100% (h.y. cynnig cyrsiau rhad ac am ddim) ar gyfer ffoaduriaid a cheiswyr lloches.

Mae'r data diweddaraf gan y Ganolfan yn dangos bod oddeutu 43% o ddysgwyr ar gyrsiau prif ffrwd yn derbyn gostyngiad ffioedd ar hyn o bryd. Yn ogystal caiff gweithgareddau cyflenwol fel Sadyrnau Siarad neu sesiynau adolygu eu darparu yn rhad ac am ddim ac mae gan bob dysgwr fynediad i sesiynau blasu ac adnoddau hunan-astudio am ddim trwy lwyfan dysgu digidol y Ganolfan.

Mae Cronfa Ariannol Wrth Gefn y Ganolfan yn cynnig cymorth ariannol i ddysgwyr Cymraeg. Mae'n cynnig cymorth tuag at amrywiaeth o gostau, gan gynnwys costau gofal plant a chostau teithio, er mwyn sicrhau nad yw'r rhain yn rhwystr i unigolion fynd ati i ddysgu.

Hyderaf fod y wybodaeth uchod yn egluro'r camau sydd ar waith i sicrhau system effeithiol a fforddiadwy i oedolion a phobl ifanc ddysgu Cymraeg . Fe fyddwn yn hapus iawn i ddarparu gwybodaeth bellach i'r Pwyllgor, neu gellir cysylltu yn uniongyrchol â Phrif Weithredwr Y Ganolfan Dysgu Cymraeg Genedlaethol, Dona Lewis, drwy e-bostio dona.lewis@dysgucymraeg.cymru am wybodaeth bellach am waith y Ganolfan.

Fe wyddoch hefyd ein bod yn ymgynghori ar gynigion ar gyfer Bil Addysg Gymraeg, sy'n cynnwys y cwestiwn canlynol mewn perthynas â Dysgu Cymraeg:

- Ydych chi'n cytuno gyda'r egwyddor y dylid gwarantu bod yna ddigon o ddarpariaeth dysgu Cymraeg a strwythurau addas mewn lle i gefnogi dysgwyr o bob oed yng Nghymru?

Bydd yr ymgynghoriad yn cau ar 16 Mehefin ac, ar ôl i ni ddadansoddi'r ymatebion, byddwn yn ystyried sut i fwrw 'mlaen ar gyfer y maes hwn.

Yn gywir,



**Jeremy Miles AS/MS**
Gweinidog y Gymraeg ac Addysg
Minister for Education and Welsh Language